

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



**ADRODDIAD YMGYNGHORI:
CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL:
4) TAI FFORDDIADWY**

Cynnwys

1	CEFNDIR	3
	Y Cyd-destun Polisi	3
	Yr angen am Ganllaw Cynllunio Atodol	3
2	YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS	4

[ATODIAD A: Crynodeb o Sylwadau a Derbyniwyd ac Argymhellion Swyddog](#)

1 CEFNDIR

Y Cyd-destun Polisi

- 1.1 Mabwysiadodd yr Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) 2016-2031 ar 6ed Chwefror 2019. Mae CDLIE 2016-2031 yn cynnwys Polisiâu Strategol a Pholisiâu Datblygu fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisiâu CDLIE.
- 1.2 Bydd CCA yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o'r CDLIE, ac sy'n gyson â'r CDLIE. Dylai CCAau ehangu a dehongli polisiâu cynllunio ac nid ynddynt eu hunain, ffurfio meysydd polisi newydd.

The need for a Supplement Planning Guidance

- 1.3 Gan fod y fersiwn flaenorol o'r CCA hwn wedi cael ei fabwysiadu yn ôl ym mis Medi 2011, mae polisiâu tai'r Awdurdod wedi'u diwygio trwy baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 diwygiedig. Felly, mae angen diwygio'r CCA yn ei gyfanrwydd i ddarparu canllawiau cyfredol a phriodol i gynorthwyo'r rhai sy'n penderfynu ar geisiadau, asiantau ac aelodau'r cyhoedd ar ddatblygiadau Tai Fforddiadwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri.
- 1.4 Pwrpas y canllaw / arweiniad yw :
 - Darparu arweiniad ar anghenion lleol am dai fforddiadwy gan gynnwys diffiniadau a mathau.
 - Darparu arweiniad manwl i ddefnyddwyr y system gynllunio ar sut y bydd y polisiâu cyfredol ar dai fforddiadwy yn cael eu cymhwyso.
 - Esbonio beth sydd angen ei ystyried wrth gyflwyno cais cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy newydd
 - Darparu canllawiau i gynorthwyo swyddogion ac aelodau i benderfynu ar geisiadau cynllunio am dai fforddiadwy
- 1.5 Mae'r CCA yn darparu gwybodaeth fanwl ar sut y bydd yr Awdurdod yn cymhwyso polisiâu a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) (2016-2031). Y polisiâu mwyaf perthnasol yng NghDLI Eryri diwygiedig yw Polisi Strategol G: Tai, Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy, Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig a Pholisi Datblygu 9: Addasu a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig.
- 1.6 Mae'r CCA wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu data cyfredol ar incwm aelwydydd sy'n llywio lefel pris fforddiadwy eiddo (Atodiad 6 o'r CCA). Mae maint unedau tai fforddiadwy hefyd wedi'i ddiffinio fel eu bod gymesur ag anghenion yr aelwyd arfaethedig ac yn parhau'n fforddiadwy am byth (Adran 8 y CCA). Mae'r CCA hefyd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r data mwyaf diweddar sy'n ymwneud â thaliadau symiau gohiriedig (Adran 9 o'r CCA).

2 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 2.1 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar Gorffennaf 3ydd 2019. Paratowyd y drafft mewn ymgynghoriad â swyddogion o Adran Rheoli Datblygu yr Awdurdod a'r Adrannau Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaeth yr Awdurdod, ynghyd ag arbenigwyr Rhanddeiliaid Pwnc eraill.
- 2.2 Roedd drafft cymeradwy'r CCA hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o 6 wythnos rhwng 9fed o Orffennaf 2019, a'r 18fed o Fedi 2019.
- 2.3 Mae manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac fe gafodd negeseuon e-bost / llythyrau eu hanfon at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, a'r rhai ar Gronfa Ddata Cyswllt yr Awdurdod. Roedd copïau caled o'r CCA hefyd ar gael i'w gweld:
 - yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth,
 - mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn y Bermo, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Penygroes, Tywyn, Porthmadog, Y Bala, Cerrigydrudion, Conwy, Llanfairfechan, Llanrwst, Penmaenmawr, ac
 - yng Nghanolfannau Croeso yr Awdurdod ym Metws Y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi
- 2.4 Rhoddwyd gwybod i bartïon â diddordeb y dylent ymateb i'r ymgynghoriad trwy gyflwyno sylwadau trwy e-bostio polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru neu drwy'r post i gyfeiriad Swyddfa Parc yr Awdurdod ym Mhenrhyndeudraeth.
- 2.5 Derbyniwyd cyfanswm o 9 o sylwadau, ynglyn a materion megis hunan-adeiladu, symiau cymudol, safonau adeiladu, yr iaith Gymraeg ac hyfwydra. Derbyniwyd 8 sylwad ychwanegol ar ol y terfyn amser i dderbyn sylwadau. Nid ydynt wedi cael eu ystyried gan swyddogion ond maent wedi gynnwys yn Atodiad A (cyfeirnodau 005-006).
- 2.6 Er mwyn pwrpasau eglurhad, gwnaed un ychwanegiad gan swyddogion i baragraff 8.16 ynlgyn a thynnu hawliau datblygu a ganiateir.
- 2.7 Nid ydi Tai Teg bellach yn codi ffi ar gyfer asesiadau unigol o anghenion tai, felly mae paragraff 7.8 wedi'u ddileu.
- 2.7 Mae Atodiad A yr adroddiad hwn, yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a, lle bo hynny'n briodol, yn argymhell unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r CCA o ganlyniad i'r sylwadau.

ATODIAD A – CRYNODEB O SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION SWYDDOG

Cyf	Sylw	Sefydliad	Math o Sylw	Pennod	Rhif Para	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
001	001	Gruffydd Price	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	Nid yw'r CCA yn sôn am 'hunan-adeiladu', y mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn cynllun ar ei gyfer. Mae angen hunan-adeiladu yn y Parc Cenedlaethol i gefnogi a chadw'r ifanc yn ein cymunedau	Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o lansio cynllun newydd o'r enw 'Hunanadeiladu Cymru'. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys Awdurdodau Lleol yn nodi 'plotiau' ar dir sydd yn eu perchnogaeth (nid yw hyn yn cynnwys Parciau Cenedlaethol, eu rôl yn y cynllun fel Awdurdod Cynllunio Lleol yw penderfynu ar geisiadau cynllunio). Mae ymgeiswyr yn darparu blaendal o 25% ac yn derbyn benthyciad o 75% gan Fanc Datblygu Cymru. Ni fydd ymgeiswyr yn gallu rhentu na gwerthu'r cartref hunan-adeiladu am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad cwblhau. Rhaid i'r annedd hunan-adeiladu gorffenedig hefyd fod yn unig eiddo i'r ymgeisydd. Nid yw'r cynllun wedi'i lunio'n benodol i ddarparu cartrefi fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Byddai angen i unrhyw gynnig o dan y cynllun hwn gydymffurfio â Pholisi tai fforddiadwy CDLI Eryri 2016-2030. Byddai'n rhaid i unrhyw ddeiliad gydymffurfio â diffiniadau CDLIE o angen tai a deiliadaeth leol. Ni ystyrir bod cynnwys y cynllun yn y CCA yn angenrheidiol; mae'n gynllun sy'n cael ei redeg yn allanol sy'n dibynnu ar bolisiau cyfredol yr CDLIE a'r canllawiau tai fforddiadwy yn y CCA.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
002	001	Owen Devenport Ltd	Gwrthwynebiad	10	10.16	Gwrthwynebiadau i'r dull o gyfrifo'r swm cymudo wrth amrywio Cytundebau Adran 106 i gael gwared ar gyfyngiad deiliadaeth leol (h.y. ddim yn fforddiadwy). Mae'r swm cymudo yn seiliedig ar werth y farchnad agored heb y gwerth fforddiadwy ar gyfer yr ardal. Mae rhai tai ag amodau deiliadaeth leol yn fawr ac ni	Derbynnir y gallai'r dull a roddir arwain at symiau cymudo sy'n afresymol o uchel. Cynigir darparu nenfwd. Bydd unrhyw swm cymudo sy'n mynd dros hyn yn dod i lawr i werth y nenfwd. Er mwyn pennu'r gwerth hwn, gellir defnyddio pris tŷ fforddiadwy ar gyfartaledd ar draws y Parc Cenedlaethol, wedi'i luosi â swm y Grant Tai Cymdeithasol y byddai LCC fel arfer yn disgwyl ei gael gan Lywodraeth Cymru i hwyluso datblygiad cynllun tai	I gynnwys ym mharagraff 10.16 o'r CCA y canlynol (yn goch); Pan dderbynnir ceisiadau cynllunio i godi cyfyngiadau tai lleol trwy Gytundeb Adran 106, bydd yr Awdurdod yn asesu a yw'r cyfyngiad yn parhau i wasanaethu diben defnyddiol. Gall yr Awdurdod ystyried naill ai amnewid y cyfyngiad

Cyf	Sylw	Sefydliad	Math o Sylw	Pennod	Rhif Para	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						fyddant yn fforddiadwy. Byddai'r cyfrifiad yn arwain at wahaniaeth sylweddol rhwng gwerth y farchnad agored a'r gwerth fforddiadwy ac yn arwain at symiau cymudo uchel iawn. Fe awgrymir, mewn achosion o'r fath, mai'r swm cymudo fydd 10% o werth y farchnad agored.	fforddiadwy (58%). Mae hyn yn rhoi gwerth o oddeutu £65,000. Bydd unrhyw swm cymudo y cyfrifir ei fod yn uwch na'r gwerth hwn yn cael ei ostwng i £65,000.	meddiannaeth leol presennol gyda chytundeb Adran 106 tai fforddiadwy diwygiedig gyda gostyngiad o ddisgownt % (canrannol) (yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng gwerth y Farchnad Agored a'r gwerth fforddiadwy yn yr ardal fel y nodir yn Atodiad 6) neu ystyried yr opsiwn o amrywiad i'r cytundeb Adran 106 gwreiddiol yn ddarostyngedig y telir y swm cymudol tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn y dyfodol. Y swm cymudol a geisir gan yr Awdurdod fydd y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad agored a'r gwerth fforddiadwy ar gyfer yr ardal. Rhaid i werth marchnad agored yr eiddo gael ei ddarparu gan yr ymgeisydd gan ddau syrfêwr siartredig cymwys yn unol â phrisiad y llyfr coch a'i gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mewn achosion lle mae anghydfod yn parhau ynghylch prisiad y farchnad agored, ceisir gwasanaethau'r Gwasanaeth Prisio Dosbarth i ddatrys anghydfodau o'r fath gyda'r ymgeisydd yn talu'r costau. Pan fo gwahaniaeth sylweddol mewn gwerth rhwng gwerth y farchnad agored a'r gwerth fforddiadwy, bydd yr Awdurdod yn ystyried derbyn swm cymudo is hyd at werth £65,000 ar gyfer annedd sengl.
003	001	Di-enw	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	Nid yw'r ddogfen yn hawdd ei deall ac mae'n rhy gymhleth.	Ysgrifennwyd y CCA i'r lefel ofynnol o fanylion a chymhlethdod y mae'r pwnc yn ei olygu. Mae angen lefel o fanylion i ddarparu digon o arweiniad i ddatblygwyr ac mae'n darparu mecanwaith ar gyfer cyfrifo gwerthoedd cartref fforddiadwy a symiau cymudo. Am gymorth, mae geirfa wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r CCA. Nid yw'r	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

Cyf	Sylw	Sefydliad	Math o Sylw	Pennod	Rhif Para	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
							rhain yn ddiffiniadau manwl gywir ond fe'u darperir i roi cyflwyniad syml i'r darlennydd i rai o'r termau technegol a ddefnyddir yn y ddogfen.	
004	001	Home Builders Federation	Gwrthwynebiad	8	8.6	Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r gofynion maint ar gyfer datblygiadau sy'n derbyn Grant Tai Cymdeithasol ac nid ydynt yn berthnasol i gynllunio ac ni ddylid cyfeirio atynt yn y CCA. Defnyddir enghraifft o archwiliad CDLI Bro Morgannwg i ategu'r farn hon.	Canllawiau yn unig yw CCA ac nid yw'r gofynion maint tai wedi'u nodi ym Mholisi 30 Tai Fforddiadwy; ond yn hytrach yn y CCA am eglurder.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
004	002	Home Builders Federation	Gwrthwynebiad	8	8.11	Anghytuno gyda'r CCA sydd yn datgan y dylai unedau tai fforddiadwy newydd gael eu hintegreiddio'n llawn a cystal os nad gwell nag unedau tai marchnad yn rhermau ansawdd a deunyddiau dylunio allanol. Ni ellir integreiddio rhywbeth sydd yn well ansawdd.	Mae'r CCA yn defnyddio'r union geiriad a ddefnyddir ym mholisi 30 o'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri; ni ellir newid cynnwys y polisi.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
004	003	Home Builders Federation	Gwrthwynebiad	8	8.13	Mae safonau GAD (Gofynion Ansawdd Datblygu) yn cael eu hadolygu yn 2021 felly mae angen hyblygrwydd. Nid oes yn rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael eiddo wedi'i adeiladu i safonau GAD oni bai bod grant Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig, felly ni chaiff cartref nad yw wedi'i adeiladu yn unol â'r GAD ei atal rhag cael ei brynu gan LCC.	Nid yw hwn yn ofyniad ond yn ddewis datganedig. Cydnabyddir y gall LCC brynu tai nad ydynt yn cydymffurfio â GAD os nad ydynt wedi derbyn cymorth grant.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
004	004	Home Builders Federation	Gwrthwynebiad	8	8.14 + 8.15	Yn datgan nad yw'r adran hon ar yr iaith Gymraeg yn berthnasol i'r CCA a dylid ei dileu.	Mae'r CCA yn egluro gofynion Polisi Datblygu 18: Y Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau, o GDLIE. Mae'n ofynnol i Ddatganiad Cymunedol ac Ieithyddol gyd-fynd â chais cynllunio ar gyfer safleoedd annisgwyl ar	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

Cyf	Sylw	Sefydliad	Math o Sylw	Pennod	Rhif Para	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
							hap o 5 uned breswyl neu fwy. O ystyried y bydd cais o'r fath yn gofyn am ddarpariaeth o dai fforddiadwy, yn dibynnu ar y math o anheddiad, mae hon yn ystyriaeth berthnasol a phwysig.	
004	005	Home Builders Federation	Gwrthwynebiad	9	9.21	Dylid cyfeirio at y cymal yn A.106au sy'n ei gwneud yn ofynnol i symiau cymudo nas gwariwyd gael eu talu'n ôl i'r datblygwr o fewn cyfnod penodol o amser. Dylai'r amserlen fod yn 3 blynedd.	Fel rhan o raglen dreigl bwriedir diweddarau'r CCA ar Rwymedigaethau Cynllunio yn y dyfodol agos a fydd yn cyfeirio at y dogfennau perthnasol diweddaraf. Mae cytundebau adran 106 yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ad-dalu unrhyw gyfraniadau ariannol heb eu gwario i'r datblygwr o fewn amserlen benodol. Ar gyfer cyfraniadau tai fforddiadwy, bydd hyn o leiaf 10 mlynedd o'r dyddiad y'i derbynnir. Mae hyn yn adlewyrchu natur gymhleth darparu tai fforddiadwy, gan gynnwys yr amser a gymerir i nodi safleoedd priodol ac i nodi partner ar gyfer cyflawni a rheoli tai fforddiadwy yn y dyfodol. Mae gan y Protocol Gwariant Swm Cymudo a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Hydref 2019 wybodaeth bellach ar y pwnc. Ystyrir y dylid gadael y materion hyn yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod wrth gytuno ar gytundebau cyfreithiol unigol. Ni ystyrir bod angen diwygio'r CCA.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
004	006	Home Builders Federation	Gwrthwynebiad	9	9.31	Mae'r CCA yn cyngori defnyddio 'Pecyn Cymorth Gwerthuso Datblygiad' y Tair Draig, a ddefnyddir mewn mannau eraill yng Nghymru gan CDLI a datblygwyr, lle mae anghydfod ynghylch darparu tai fforddiadwy ar safle sy'n destun cais cynllunio. Yn awgrymu mwy o hyblygrwydd yn y geiriad i ganiatáu defnyddio pecynnau	Os yw pecynnau cymorth eraill yn dod ar gael ac yn dderbyniol gan yr Awdurdod, ni fydd unrhyw wrthwynebiad i'w defnyddio.	Ar gyfer eglurhad, cynnigir cynnwys ym mharagraff 9.31 o'r CCA y canlynol (yn goch); newid paragraff 9.31 fel canlynol: For clarification purposes it is proposed to amend para 9.31 as following; Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol a datblygwyr fel ei gilydd ddefnyddio'r 'Pecyn Cymorth Gwerthuso' y Three

Cyf	Sylw	Sefydliad	Math o Sylw	Pennod	Rhif Para	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
						cymorth eraill a allai fod ar gael.		Dragons, (neu unrhyw becyn cymorth amgen arall a ystyrir yn dderbyniol gan yr Awdurdod) a ddefnyddir mewn mannau eraill yng Nghymru, fel canllaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, lle mae anghydfod ynghylch darparu tai fforddiadwy ar safle sydd yn destun cais cynllunio. Rhaglen feddalwedd yw'r pecyn offer hwn a ddefnyddir i gyrraedd gwerth gweddilliol ar gyfer y tir trwy gymharu costau llawn adeiladu datblygiad preswyl â'r refeniw a gynhrychir drwy werthu tai ac unrhyw refeniw a gynhrychir gan y tai fforddiadwy. Gellir defnyddio'r feddalwedd hefyd i wirio costau adeiladu a datblygu unedau fforddiadwy unigol. Mewn achosion lle mae anghydfod yn parhau ynglŷn â gwerthoedd ac na ellir eu datrys, ceisir gwasanaethau'r Gwasanaeth Prisio Dosbarth i ddatrys anghydfodau o'r fath ac fe fydd y costau yn cael eu talu gan yr ymgeisydd.
005	001	Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Cymru	Gwrthwynebiad	6	6.4	Ehangu'r meini prawf gofynion penodol ar gyfer angen i dai gynnwys 'am resymau meddygol', yn ogystal ag ar gyfer yr henoed a'r anabl. Ychwanegu meini prawf ychwanegol: 'yn dioddef erledigaeth neu allgau cymdeithasol yn eu hardal breswyl bresennol'.	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
005	002	Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Cymru	Gwrthwynebiad	6	6.5	Yn awgrymu ehangu'r diffiniad o weithiwr allweddol rhag bod mewn cyflogaeth barhaol amser llawn, i gynnwys y rheini mewn cyflogaeth ran-amser neu dros dro.	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

Cyf	Sylw	Sefydliad	Math o Sylw	Pennod	Rhif Para	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau Arfaethedig
006	001	Evan Owen	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	Yn gofyn am dystiolaeth a ddefnyddir i baratoi'r CCA.	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
006	002	Evan Owen	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	Yn cyfeirio at lythyr a anfonwyd gan weinidog tai Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd a ddyrannwyd ddarparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy.	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
006	003	Evan Owen	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	Yn cyfeirio at Bolisi Datblygu 5: Mannau agored a Lletemau Gwyrdd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031, ac at safleoedd penodol a chaniatâd cynllunio nad ydynt yn berthnasol i'r CCA hwn.	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
006	004	Evan Owen	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	<p>"Mae gosod prisiau plot a rhent sefydlog yn methu'r targed, a yw'r plotiau £12,000 hyn yn cynnwys gwasanaethau ac a ddylai'r rhent fod 20% yn llai na rhenti marchnad agored?"</p> <p>Nid yw'n eglur i swyddogion pa bwynt sy'n cael ei wneud a pha ran o'r CCA y cyfeirir ato.</p>	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
006	005	Evan Owen	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	<p>Gofynnir a yw'n iawn dweud nad yw perchnogaeth tir y tu allan i'r gymuned ffermio yn rheswm i roi caniatâd cynllunio ar safle penodol, gan ei fod yn ymddangos yn beth gwahaniaethol.</p> <p>Nid yw'n eglur i swyddogion pa bwynt sy'n cael ei wneud a pha ran o'r CCA y cyfeirir ato.</p>	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
006	006	Evan Owen	Gwrthwynebiad	Cyffredinol	Cyffredinol	Mae sylwadau ar barc Corsygedol a statws dynodiad gardd sydd ddim yn berthnasol i'r CCA.	Derbyniwyd ar ôl cau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau.	Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.

